Ysgol Dyffryn Ogwen

Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2015-2019)

Datganiad polisi cyffredinol
Mae'r ysgol hon yn gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.

Hyrwyddwn gysylltiadau da a chyd-barch o fewn a rhwng ein disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r rhieni, rhai sy'n gofalu am a gwarcheidwaid ein disgyblion, beth bynnag fo eu tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiradaeth rhywiol, anabledd, newid o ran rhyw, crefydd neu anffyddiaeth, iaith, cenedl, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion neu am unrhyw reswm arall nas gellir dangos bod cyfiawnhad drosto.

Mae'r ysgol yn cydnabod y ceir cymdeithasau amrywiol yng Nghymru a'r DU, yn cynnwys unigolion o lawer o wahanol gefndiroedd. Mae'n bwysig bod pob plentyn a'r holl bobl ifanc wedi eu paratoi'n ddigonol i fyw mewn cymdeithas mor amlddiwylliannol ac amrywiol.

Ein nod yn ein hysgol yw delio â gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da ar draws pob agwedd o fywyd ysgol. Gwnawn hynny trwy:

- greu ethos ble mae pob plentyn a pherson ifanc unigol yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i fod yn ddiogel;
- creu ymdeimlad o hunan-barch a hyder yn ein plant a'n pobl ifanc, fel y gallant ddefnyddio'r rhinweddau hyn i ddylanwadu ar eu perthynas ag eraill;
- bod a disgwyliadau cyson uchel o blant a phobl ifanc yn eu hymddygiad ac yn eu dysg;
- lleihau rhwystrau i ddysgu, fel y gall pob plentyn ac unigolyn ifanc dderbyn yr un cyfle i gyflawni;
- sicrhau ystyriaeth addas a cytbwys i anghenion dysgu pob plentyn ac unigolyn ifanc, trwy ein cynlluniau gwaith a'n cynlluniau gwers;
- adnabod gweithdrefnau eglur ar gyfer delio'n gyflym â digwyddiadau o ymddygiad gwahaniaethol;
- creu hyder ymhlith plant a phobl ifanc a staff i herio ymddygiad rhagfarnllyd ac ymosodol;
- herio stereoteipiau a hyrwyddo delweddau positif;

Cyfrifoldebau
Rôl y Bwrdd Llywodraethol

- Mae'r bwrdd llywodraethol wedi amlinellu ei ymrwymiad i gydraddoldeb trwy roi sêl bendith ar y cynllun hwn a'i fabwysiadu a bydd yn dal i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr ysgol yn hollol gynhwysol i ddisgyblion, ac yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau unigolion yn unigol.
- Ceisia'r bwrdd llywodraethol sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unigolion ar unrhyw sail, wrth ymgeisio am swyddi yn ein hysgol.
- Cymer aelodau'r bwrdd llywodraethol bob cam rhesymol i sicrhau y rhydd amgylchedd yr ysgol fynediad i bobl anabl, a cheisiant hefyd sicrhau bod cyfathrebiadau'r ysgol mor gynhwysol a bo modd i rieni, rhai sy'n gofalu a disgyblion fel'i gilydd.
- Mae'r bwrdd llywodraethol yn croesawu pob cais i ymuno â'r ysgol, beth bynnag fo cefndir unigol neu gefndir teuluol plentyn.
- Bydd y bwrdd llywodraethol yn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw blentyn tra maent yn yr ysgol.

Rôl y pennaeth (neu uwch athro sy'n gyfrifol am Gydraddoldeb)

- Y pennaeth sy'n gyfrifol am weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol a chaiff ef/hi ei chefnogi gan y bwrdd llywodraethol yn hynny o beth.
- Y pennaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o Gynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol, a bod athrawon yn cymhwyso'r canllawiau hynny mewn pob sefyllfa.
- Mae'r pennaeth yn sicrhau y rhydd yr holl baneli penodi ystyriaeth ddyledus i'r cynllun hwn, fel na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un pan ddaw yn fater o gyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Mae'r pennaeth yn hyrwyddo'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ddatblygu'r cwricwlwm, ac yn hybu parch at eraill a chyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn pob agwedd o fywyd yr ysgol.
- Bydd y pennaeth yn delio o ddifrif â phob digwyddiad o driniaeth annheg ac unrhyw achos o fwlio yn sgîl gwahaniaethu.

Rôl y staff cyfan (dysgu ac ategol)

- Bydd yr holl staff yn sicrhau y caiff pob disgybl ei drin yn deg, yn gyfartal a gyda pharch, ac yn dilyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol.
- Bydd yr holl staff yn ceisio darparu deunydd a rydd ddelweddau positif ac sy'n herio delweddau ystrydebol.
- Bydd yr holl staff yn herio unrhyw ddigwyddiadau ble ceir rhagfarn, boed yn hiliaeth, homoffobia, cysylltiedig ag anabledd neu fath arall o ragfarn, a cofnodi unrhyw ddigwyddiad, gan dynnu sylw'r pennaeth atynt.
- Mae'r athrawon yn cefnogi gwaith y staff ategol neu gefnogol ac yn eu hannog i ymyrryd yn bositif yn erbyn unrhyw ddigwyddiadau gwahaniaethol.

Ymwelwyr a chontractwyr sy'n gweithio ar y safle

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr holl ymwelwyr neu gontractwyr sy'n gweithio ar y safle yn ymwybodol o ac yn ymddwyn a gweithredu yn unol â safiad yr ysgol ar gydraddoldeb a digwyddiadau gwahaniaethol.

Ymgynghori

Caiff y polisi hwn ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r canlynol:

- Staff.
- Plant a phobl ifanc.
- Rhieni.
- Aelodau'r Bwrdd Llywodraethol.
- Grwpiau/Cynrychiolwyr o'r Gymuned.
- Cyngor Gwynedd
- Sefydliadau partner o'r sector wirfoddol.

Cyfathrebu

Caiff y polisi llawn ei:

- arddangos yn y cyntedd;
- ei roi i bob contractwr neu ddarparwyr gwasanaeth nad ydynt yn cyflenwi'r AALL, y cânt eu gwneud yn ymwybodol o'r angen i ddilyn y polisi ac y gofynnir iddynt am eu polisi eu hunain;
- ei roi i bob rhiant/gofalwr/gwarcheidwad ac ar gael os gofynnir ar gyfer ymwelwyr ac aelodau'r gymuned ehangach.

Caiff Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol hefyd ei anfon at:

- bob ymgeisydd am swydd;
- caiff ei gyhoeddi ym mhrosbectws yr ysgol;
- caiff ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol
- ei arddangos o amgylch tir yr adeilad;
- ar gael os gofynnir i unrhyw un sy'n dymuno cael copi.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol a'r gofyn.

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob pedair mlynedd neu'n dilyn unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth.

Arwyddwyd: *Alun Llwyd* Pennaeth

Arwyddwyd: *Godfrey Northam* Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethol

Adrannau sy'n gysylltiedig ag agweddau penodol o swyddogaeth yr ysgol

1. Ethos Cymuned Gyfan

1.1 Dathlu a darparu ar gyfer amrywiaeth

Gwnawn bopeth o fewn ein gallu i sicrhau y delir ag anghenion pob grŵp yn yr ysgol trwy ddathlu amrywiaeth, megis darparu ar gyfer gofynion ymborth a gofynion gwisg gwahanol grwpiau crefyddol a caniatáu plant a phobl ifanc i arsylwi gwahanol ddathliadau a gwyliau crefyddol.

1.2 Paratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas amryfal

Rydym yn annog pob plentyn a phawb ifanc i ddeall, parchu a gwerthfawrogi unigolion a hunaniaeth, diwylliannau a chredoau pobl maent yn anghyfarwydd â hwy er mwyn eu paratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas amryfal.

2. Cyrhaeddiad, datblygiad ac asesiad personol plant a phobl ifanc

2.1 Cyrhaeddiad a chynnydd

Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cyrraedd ei llawn botensial. Rydym yn monitro cynnydd plant a phobl ifanc unigol am arwyddion o dan-gyrhaeddiad. Delir â'r rhain trwy gefnogaeth sydd wedi ei gynllunio a'i dargedu. Ble bo angen, ceisir cyngor gan sefydliadau cefnogol megis yr Awdurdod Lleol a sefydliadau partner o'r sector gwirfoddol.

2.2 Cefnogaeth fugeiliol

Mae'n cefnogaeth fugeiliol yn ystyried gwahaniaethau crefyddol a gwahaniaethau ethnig a phrofiadau plant sy'n sipsi deithwyr, ffoaduriaid ac yn ymofynnwyr noddfa.

2.3 Cefnogaeth i blant a phobl ifanc SIY

Darparwn gefnogaeth briodol ar gyfer plant a phobl ifanc lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a'u hannog i ddefnyddio a datblygu eu ieithoedd cartref, ble bo modd.

2.4 Gyrfaoedd a profiadau gwaith yn y dyfodol

Rydym yn annog pob plentyn a pherson ifanc i ystyried yr ystod llawn o brofiadau gwaith sydd ar gael yn y dyfodol a dewisiadau addysg bellach er mwyn sicrhau na chaiff unigolion neu grwpiau penodol eu stereoteipio.

2.5 Asesiad
Cymerwn ofal i sicrhau na fydd plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig, rhai lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ac unrhyw blant sy'n ffoaduriaid ac yn ymofynnwyr noddfa yn cael eu rhoi dan anfantais trwy ragfarn diwylliannol a ieithyddol neu ddiffyg cefnogaeth mewn asesiadau. Ceisir cyngor pan fo'n berthnasol.

2.6 Anghenion Addysgol Ychwanegol
Gwneir asesiadau manwl-gywir o anghenion addysgol arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig, rheini lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, ac ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid ac sy'n ymofynnwyr noddfa. Rhoddir cefnogaeth briodol i bob plentyn a pherson ifanc ag anghenion addysgol arbennig.

3. Cwricwlwm, addysgu ac adnoddau
3.1 Hybu amrywiaeth diwylliannol trwy gyfrwng y cwricwlwm
Rydym yn hyrwyddo amrywiaeth yn y cwricwlwm trwy addysgu cynnwys positif, amrywiol, adolygu'n systematig ddogfennaeth er mwyn sicrhau cynnwys priodol a trwy feithrin parch tuag at bawb beth bynnag fo eu hamgylchiadau unigol neu deuluol.

3.2 Mynediad at y Cwricwlwm
Gwnawn bob ymdrech i sicrhau caiff pob plentyn a phobl ifanc fynediad i'r cwricwlwm trwy gymryd eu cefndiroedd unigol a'u anghenion ieithyddol i ystyriaeth, a thrwy addasu a gwahaniaethu gwaith yn briodol.

3.3 Adnoddau
Caiff delweddau positif o ystod o bobl a diwylliannau eu portreadu trwy ein hadnoddau a'n harddangosfeydd. Cânt eu hadolygu a'u huwchraddio'n systematig er mwyn sicrhau bod pob gofyn unigol yn cael ei gwrdd a defnyddiwn amrywiaeth o adnoddau i herio stereotepiau a gwahaniaethu yn drawsgwricwlaidd.

3.4 Addysgu a Dysgu
Cymerwn gamau positif i sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan a theimlo y caiff eu cyfraniadau eu gwerthfawrogi. Caiff plant a phobl ifanc o bob cefndir eu hannog i gydweithio gyda chydweithrediad a dealltwriaeth. Caiff rhagfarn a stereoteipiau eu herio gan ein haddysgu ac rydym yn meithrin ymwybyddiaeth feirniadol plant a phobl ifanc o ragfarn, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder.

3.5 Ymglymiad pobl o gefndiroedd amryfal
Ceisiwn ddefnyddio batrymau ymddwyn a chyflwynwyr o blith ystod o wahanol grwpiau yn yr ysgol i gyd-rannu ystod eang o sgiliau a phrofiadau.

4. Derbyn a phresenoldeb
4.1 Derbyn
Mae ein meini prawf mynediad a chyfweliadau yn seiliedig ar ganllawiau'r Awdurdod Lleol ac maent yn deg a chyfartal i bawb ac nid ydynt yn cael effaith niweidiol ar unrhyw unigolion na grwpiau.

4.2 Presenoldeb
Disgwyliwn bresenoldeb da gan bob plentyn a pherson ifanc. Rydym yn cydnabod hawl plant a phobl ifanc i gymryd amser i ffwrdd ar gyfer e.e. ymlyniad crefyddol, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ar seibiant estynedig i ddal i fyny a gwaith a gollir.

5. Ymddygiad, disgyblaeth a gwahardd

5.1 Bwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu

Rydym yn gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu, ac ni chaiff defnydd o'r fath iaith neu ymddygiad ei oddef a chaiff ei herio bob tro. Delir â phob digwyddiad yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod Lleol a'r Ysgol.

5.2 Ymddygiad a disgyblaeth

Disgwylir safonau uchel o ymddygiad gan bob plentyn a'r holl bobl ifanc. Caiff yr holl blant a'r bobl ifanc eu trin yn deg ac heb wahaniaethu yn eu herbyn pan gânt eu disgyblu am ymddygiad sy'n tarfu. Cymerir mesurau pendant a chyson wrth ddelio â digwyddiadau o natur gwahaniaethol a chynhelir ymchwiliad llawn i bob honiad o aflonyddu neu gythruddo o'r fath.

5.3 Gwahardd

Cymerwn gamau rhagweithiol i geisio atal gwahardd a chaiff unrhyw waharddiadau sy'n anochel eu monitro trwy ddefnyddio'r ystod llawn o nodweddion cydraddoldeb.

6. Partneriaeth gyda rhieni a'r gymuned

6.1 Partneriaeth gyda rhieni a'r gymuned

Rydym yn ceisio tynnu ar fedrusrwydd, sgiliau a gwybodaeth unigolion o ystod o gefndiroedd, o'r gymuned leol ac ehangach, i ddatblygu agweddau positif tuag at amrywiaeth diwylliannol a herio gwahaniaethu. Caiff rhieni o gefndiroedd amrywiol eu hannog i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Ble bo angen, defnyddir cyfieithu a dehongli i gyfathrebu ac ymgynghori gyda rhieni neu rai sy'n gofalu nad yw Saesneg yn famiaith iddynt.

6.2 Tir yr ysgol

Gall pob grŵp yn y gymuned ddefnyddio tir yr ysgol sy'n cefnogi'r un egwyddorion o gydraddoldeb ac amrywiaeth pan fo hynny'n briodol a thrwy ganiatad

6.3 Contractwyr a darparwyr gwasanaeth

Disgwylir i bob contractwr ac ymwelydd â'r ysgol gynnal ymddygiad, sy'n gyson â'r polisi hwn.

7. Recriwtio staff a datblygiad proffesiynol

7.1 Recriwtio a hyrwyddo

Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol, rydym yn sicrhau na cheir gwahaniaethu yn ein materion recriwtio, hyrwyddo a disgyblu.

7.2 Datblygiadau Proffesiynol

Gellir gwneud trefniadau â Tîm Dysgu a Datblygu yr Awdurdod Lleol i staff fynychu cyrsiau hyfforddi cydraddoldeb Cyngor Gwynedd. Mae'r cyrsiau hyn yn ddi-dâl i staff yr ysgol a defnyddir arbenigedd darparwyr mewnol ac allanol o'r sector gwirfoddol i ddarparu hyfforddiant ar gyfer yr holl staff a'r bwrdd rheoli ynghylch materion cydraddoldeb hîl, homoffobia, amrywiaeth diwylliannol, anabledd ac anghenion plant a phobl ifanc mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, sipsi deithwyr, ffoaduriaid ac ymofynnwyr noddfa.

7.3 Gwahaniaethu ac aflonyddu

Delir â digwyddiadau o wahaniaethu neu aflonyddu sy'n ymwneud â staff, yn unol â gweithdrefnau disgyblaeth a chwynion yr AALL/ ysgol.

7.4 Peidio â dilyn y polisi
Os bydd aelodau'r staff neu bwrdd rheoli yn peidio â dilyn y polisi hwn, delir â hynny yn unol â gweithdrefnau disgyblaeth a chwynion yr AALL/ ysgol.

8. Cynllunio ac adolygu polisi
8.1 Cynllunio a gosod targed
Defnyddiwn bolisi a hunan-arfarniadau, fel mecanweithiau archwilio, i nodi targedau penodol ar gyfer gweithredu ar faterion o gydraddoldeb hîl. Caiff y cynllun gweithredu hwn, ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu'r Ysgol a chaiff ei adolygu'n flynyddol.

8.2 Arfarnu, monitro ac adolygu polisïau
Caiff effaith holl bolisïau'r ganolfan ar blant a phobl ifanc gyda nodweddion , staff, bwrdd rheoli a rheini ei asesu er mwyn sicrhau na cheir arfer gwahaniaethol, yn arbennig yr hyn all gyfrannu at dangyflawniad plant a phobl ifanc o leifarifoedd ethnig.

Caiff effaith Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol ar bob plentyn a phobl ifanc, staff, bwrdd rheoli a rhieni, ei fonitro am ei effeithiolrwydd, yn flynyddol, a chymer arfarniadau i ystyriaeth farn plant a phobl ifanc, staff, rhieni ac aelodau o'r gymuned leol yn cynnwys grwpiau lleiafrifol. Mae pob adolygiad polisi yn ystyried goblygiadau cydraddoldebau perthnasol.

9. Cyngor a chefnogaeth
9.1 Ymgynghorwyr Awdurdod Lleol
Bydd yr ysgol yn ceisio cyngor a chefnogaeth gan swyddogion AALL a sefydliadau sector gwirfoddol perthnasol ble bo angen, er mwyn sicrhau bod polisïau wedi eu cynllunio i gwrdd ag anghenion yr ysgol, a thargedau cydraddoldeb yr ysgol yn briodol